Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 31 Ionawr 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, Meirion Jones, D. Williams, G. C. Jones, A. Williams, E. Parry, Mervyn Jones, D. James, S. Edwards, H. Huws,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	G. Parry		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Cyfrifon Mis Ionawr 2017**		
3.1	J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio, derbyniwyd y cyfrifon fel y rhai cywir Nodwyd bod y Cyngor Bro yn llongyfarch Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo am drefniant noson garolau a'r goeden Nadolig yn y pentref		
4.0	**Materion y Cyngor Sir**		
4.1	J. Evans yn nodi mai'n edrych yn debygol mai yn ward Aethwy fydd y ddau safle sipsiwns yn cael eu lleoli.		
4.2	Meirion Jones yn nodi fod cais cynllunio Hen Lon Dyfnia wedi bod yn llwyddiannus, ond am ddeg annedd yn hytrach na un deg a saith ar sail dwr wyneb a dwysedd adeiladu'r datblygiad.		
4.3	A. Mummery yn nodi ei fod wedi bod yng nghyfarfod llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd ac yn nodi bod wedi ei argymell fod Ysgol Llanfair a Brynsiencyn yn cael ei Ffederaleiddio S. Edwards yn cyrraedd y cyfarfod		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 13 Rhagfyr 2016**		
5.1	Gyda chyfeiriad at e-bost S. Edwards, cytunwyd y bydd y Neuadd ar agor deg munud cyn pob cyfarfod y Cyngor Bro er mwyn edrych dros geisiadau cynllunio.		
5.2	G. C. Jones yn cynnig bod copi o gofnodion y cael eu gyrru ymlaen saith diwrnod ar ôl cyfarfodydd. J. Roberts yn cynnig gwelliant, bod copis yn cael eu gyrru saith diwrnod cyn y cyfarfod nesaf. Eiliodd Meirion Jones, a chytunwyd i'r argymhelliad y gwelliant. Cytunwyd hefyd i gynnwyd 'Materion Brys' fel eitem ar raglen Cyngor Bro o hyn ymlaen, ac i newid 'Materion Cyngor Sir' i 'Cynrychiolwyr Pwyllgorau Eraill'		
	J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery am adrodd yn ôl pan fydd ganddo ddiweddariad	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones a S. Edwards am barhau i weithredu ar drefniadau erbyn Mis Mai	**Meirion Jones a S. Edwards**	**Mai 2017**
6.3	Llwybr beicio - Cyngor Sir yn nodi oedd y meter i fod wedi ei ddatrys rhai misoedd yn ôl, ond mae am wneud trefniadau gyda'r contractwr i'w wneud cyn gynted â phosib.	**D. Owen**	**28/02/17**
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Clerc I gysylltu â Saer Maen lleol am gyngor pellach ar atgyweirio'r cloc	**D. Owen**	**28/02/17**
6.5	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - Nodwyd bod y clerc yn dal i ddisgwyl pris gan drydydd contractwr. Cytunwyd yn unfrydol i'r contractwr sydd wedi rhoi'r pris isaf hyd yn hyn i wneud y gwaith o achos pryderon iechyd a diogelwch.	**D. Owen**	**28/02/17**
6.6	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir, ond hen dderbyn ymateb boddhaol hyd yn hyn. Clerc I ddilyn i fyny.	**D. Owen**	**28/02/17**

6.7	Wifi Neuadd Goffa - Nodwyd fod y lein ffon a wi-fi nawr wedi sefydlu. Nodwyd A. Mummery bod angen cynnal sesiwn lansiad yr Hwb Cymunedol. A. Mummery I gysylltu â Medrwn Môn I wneud trefniadau.	**A. Mummery**	
6.8	Ymgyrch codi arian y Neuadd Goffa - A. Mummery a A. Jones wedi cyfarfod a Marc Roberts. Mae Marc am drafod ymhellach gyda Rita Lyons i gasglu'r wybodaeth sydd wedi paratoi yn barod.	**A. Mummery**	**28/02/17**
6.9	Gwelliannau Pentrefol - A. Mummery wedi holi Cyngor Tref Llangefni am sefydliad Cwmni TREF Llangefni. Nodwyd bod dim arweiniad i weld yno ar hyn o bryd ar ba gyfeiriad y mae am symud ymlaen. A. Mummery am drio cael gwybodaeth bellach gan Medrwn Mon diwrnod lansio'r Hwb Cymunedol.	**A. Mummery**	**28/02/17**
6.10	Pryderon Parcio gyda chyfarfodydd Slimming World yn y Pentref - Clerc I gysylltu â Slimming World yn hysbysu nhw o bryderon cryf yn y pentref am y sefyllfa parcio a gofyn iddynt weithredu i wella'r sefyllfa neu bydd y Cyngor Bro yn hysbysu'r Heddlu a Cyngor Sir.	**D. Owen**	**28/02/17**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Cyllid 17 Ionawr 2017**		
7.1	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	Cais Yswiriant - Clerc I symyd ymlaen i gwblhau'r trefniadau	**D. Owen**	**28/02/17**
9.0	**Cyllideb 2017/18**		
9.1	Wedi cyfarfod Pwyllgor Cyllid yn Ionawr, argymhellwyd i gadw'r priseb yn £39,000 wedi taenlen wedi cael ei baratoi ac amcan o wariant ei wneud. A. Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio bod y Cyngor Bro yn codi'r priseb I £40,000, gan ychwanegu £1,000 ar wariant gwelliannau pentrefol. Cytunwyd yn unfrydol i'r argymhelliad i osod y priseb yn £40,000 ar gyfer 2017.18		
10	**Panel Dewis y Pwyllgor Safonau**		
10.1	Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau		
11.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
11.1	31C78L/VAR Cais o dan Adran 73 I ddiwygio amod (14) (yn unol â'r cynllun) o ganiatâd cynllunio rhif 31C78H/DEL (codi tri annedd) er mwyn cynnwys ystafell haul ar bob annedd yn Creigar Fields, Llanfairpwll - Dim sylw		
11.2	31C357D Cais llawn i addasu ac ehangu yn Siglan Bach, Lon Dyfnia, Llanfairpwll - Dim sylw		
11.3	31C437 Cais llawn ar gyfer codi ystafell haul yn 1 Cil y Graig, Llanfairpwll - Dim gwrthwynebiad cyn belled a does dim effaith ar drigolion cyfagos		
12.0	**Gohebiaeth**		
12.1	Cylchgrawn - Dan do Mon - Derbyn y wybodaeth		
12.2	Cylchgrawn - Clerks & Councils Direct - Derbyn y wybodaeth		
12.3	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
12.4	Mon CF - Llythyr cynnal a chadw offer chwarae - Gofyn iddynt roi pris am dorri gwair 2017/18	**D. Owen**	
12.5	Cyngor Sir - Gorchymyn CSYM (Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro) (Lon yr Eglwys, Llanfairpwll) - Derbyn y wybodaeth		
12.6	Un Llais Cymru - Cyfarfod yn Neuadd y Sir 19 Ionawr 2017 -		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 28 Chwefror 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa